# Safonau'r Gymraeg – Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-19

## Crynodeb Gweithredol

Ar 1 Ebrill 2018, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, daeth Safonau'r Gymraeg i rym, gan ddisodli cynllun iaith blaenorol y Brifysgol. Cafodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, a Chomisiynydd y Gymraeg sy'n eu rheoleiddio. Prif nod y rheoliadau yw sicrhau nad yw sefydliadau addysg uwch yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan bwysleisio cynnig yn rhagweithiol a chofnodi'r dewis iaith yn hytrach na gadael i fyfyriwr, aelod o'r cyhoedd neu weithiwr ofyn am wybodaeth neu wasanaethau yn Gymraeg.

Mae gan bob Prifysgol ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n manylu ar yr wybodaeth ganlynol:

| | |
|---|---|
| **Cydymffurfio cyffredinol** | Sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau yr oedd dyletswydd arnom eu cyflawni'r flwyddyn honno (yn ôl dosbarth y safon – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu). |
| **Cwynion** | Nifer y cwynion a gafwyd (yn ôl dosbarth y safon – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu). |
| **Sgiliau'r gweithlu** | Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw. |
| **Cyrsiau hyfforddiant** | Nifer yr aelodau o staff (a'r ganran) a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennym yn Gymraeg. |
| **Swyddi a hysbysebwyd** | Nifer y swyddi gwag y gwnaethom eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn a oedd wedi'u categoreiddio gyda gwahanol ofynion o ran sgiliau Cymraeg. |

Yn unol â gofynion y Safonau, mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Awst 2018 a 31 Gorffennaf 2019 (a elwir y cyfnod adrodd yn yr adroddiad hwn). Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gael ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys adran am yr hyn y gall siaradwyr Cymraeg ei ddisgwyl gan y Brifysgol.

## Cydymffurfio Cyffredinol

Mae'r adran hon yn amlinellu sut mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ôl dosbarth y Safon (Gweithredu/Cyflenwi Gwasanaethau/Llunio Polisi).

| **Gweithgareddau cyffredinol sy'n helpu'r Brifysgol i gydymffurfio â phob safon.** | |
|---|---|
| **Hyfforddiant gorfodol** | Mae'r Brifysgol wedi creu e-fodiwl Cymraeg y mae'n rhaid i'r holl staff ei gwblhau. Mae'r cyfraddau cwblhau'n cael eu monitro a'u cyflwyno i Ysgolion ac Adrannau bob mis. Mae ymgyrch gyfathrebu wedi bod ar droed drwy gydol y cyfnod adrodd er mwyn gwneud yn siŵr bod staff yn cwblhau'r cwrs. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd 51% o staff wedi cwblhau'r modiwl. |
| **Uned Gyfieithu ac adnoddau eraill** | Mae ein Huned Gyfieithu wedi cael ei hehangu i chwe aelod o staff er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i gydymffurfio â'r Safonau. Mae'r Uned wedi creu teclyn ar-lein y mae modd cyflwyno ceisiadau i'w cyfieithu drwyddo. Hefyd, mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn gallu |

| | |
|---|---|
| | gofyn i'r Uned Gyfieithu wirio eu cyfieithiadau er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ystyr yn gyson rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg. Ar eu gwefan mae cronfa ddata o derminoleg y gall staff ei defnyddio. Gall staff drefnu cyfieithu ar y pryd drwy'r wefan.<br><br>Mae'r Brifysgol wedi prynu meddalwedd Memsource, sef cof cyfieithu sy'n storio'r holl waith cyfieithu er mwyn sicrhau cysondeb ac i gyflymu'r broses o gyfieithu yn y dyfodol pan fydd yr un frawddeg neu derm wedi'u cyfieithu o'r blaen. Mae uwch-gyfieithydd yn gwirio pob darn o waith cyn y caiff ei ddychwelyd er mwyn sicrhau bod yr ystyr cywir wedi'i gyfleu.<br><br>Mae'r Brifysgol yn cynnig geiriadur electronig Cysgeir a gwirydd gramadeg a sillafu Cysill i'r holl staff. |
| **Penodi Deon y Gymraeg** | Yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19, llwyddodd y Brifysgol i benodi Deon y Gymraeg a fydd, yn ogystal â chydlynu gwaith y Brifysgol ar strategaeth newydd y Gymraeg, yn meithrin ein cyfraniadau unigol ac ar y cyd o ran hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, yn cynnal goruchwyliaeth strategol o bortffolio darpariaeth y Gymraeg, datblygu polisi ac yn gyrru'r gwaith o weithredu'r strategaeth mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg, a gweithredu fel hyrwyddwr proffil uchel ar gyfer anghenion academaidd ac ehangach myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg. |
| **Hyrwyddwyr y Gymraeg** | Mae gan y Brifysgol rwydwaith o Hyrwyddwyr y Gymraeg ymhlith y staff. Mae o leiaf un aelod o staff ym mhob Ysgol ac Adran, sydd â'r rôl o gynnig arweiniad ynghylch y Safonau, hyrwyddo arfer da ac adrodd problemau wrth Swyddog y Gymraeg. |
| **Bwrdd Ymgynghorol y Gymraeg** | Mae Bwrdd Ymgynghorol y Gymraeg yn cwrdd yn chwarterol ac yn gweithredu fel cyfaill beirniadol ac ymgynghorydd ar gyfer cynlluniau'r Brifysgol i hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi addysg Gymraeg a dysg y myfyrwyr. Mae ei aelodaeth yn cynnwys staff (gan gynnwys cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr) sydd mewn sefyllfa i gynghori'r Brifysgol ar anghenion a disgwyliadau'r gymuned Gymraeg rydym yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer.<br><br>Mae'n cael adroddiadau gan uwch staff o adrannau allweddol ledled y Brifysgol, megis Adnoddau Dynol, Cymorth i Fyfyrwyr, Dysgu ac Addysgu, a Recriwtio Myfyrwyr. |
| **Codi ymwybyddiaeth** | Mae'r Brifysgol wedi creu a chyhoeddi fideo, sydd ar gael i bawb ond sydd wedi'i anelu'n bennaf at staff, ac sydd wedi helpu i godi ymwybyddiaeth am hawliau Myfyrwyr o dan Safonau'r Gymraeg.<br><br>Rydyn ni hefyd wedi cynhyrchu taflen, a ddyluniwyd i gyd-fynd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth Comisiynydd y Gymraeg, #maegenihawl. Mae hon wedi'i rhannu â myfyrwyr mewn digwyddiadau fel wythnos y glas a Diwrnod Shw'mae, ac roedd ar gael mewn lleoliadau amlwg ledled y Brifysgol, fel Undeb y Myfyrwyr a'n preswylfeydd myfyrwyr. |
| **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau** | |
| Gellir darllen datganiad o gydymffurfiaeth ffurfiol y Brifysgol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn ein Polisi Cyflenwi Gwasanaethau Cymraeg. | |
| **Gohebu â'r Cyhoedd** | Mae'r Brifysgol wedi llunio arweiniad i staff ynghylch cyfathrebu'n ddwyieithog, ac mae hwn ar gael ar Fewnrwyd y Staff. Mae ymgyrch |

| | |
|---|---|
| | gyfathrebu wedi cael ei chynnal drwy gydol y cyfnod adrodd er mwyn codi ymwybyddiaeth y staff o'r arweiniad. Mae'n cynnwys erthyglau rheolaidd i staff, a fideo'n egluro hawliau Myfyrwyr o dan y Safonau. Gofynnir i staff gynnwys llofnod dwyieithog ar waelod pob e-bost.<br><br>Mae dewis iaith y myfyrwyr yn cael ei gofnodi wrth iddynt ymrestru ac mae'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i'r staff sy'n cyfathrebu â nhw. |
| **Ffôn** | Crëwyd arweiniad i staff er mwyn helpu'r rhai di-Gymraeg gyda chyfarchion dwyieithog a recordio neges allan-o'r-swyddfa. Mae cardiau post wedi cael eu dylunio ar gyfer y bwrdd gwaith sy'n rhestru cyfarchion defnyddiol wedi'u hysgrifennu'n ffonetig ac mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu'n helaeth ledled y Brifysgol. |
| **Cyfarfodydd, Digwyddiadau, Darlithoedd Cyhoeddus a Chyfleoedd i Ddysgu** | Crëwyd arweiniad i staff a dogfennau coeden benderfyniadau er mwyn helpu staff i ganfod a oes angen darpariaeth ddwyieithog yn y categorïau hyn. Mae'r Gwasanaethau Sicrwydd wedi rhoi cyflwyniadau mewn sawl grŵp rhwydwaith staff allweddol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gofynion yn y meysydd hyn. |
| **Gwefan** | Mae system rheoli cynnwys gwe y Brifysgol (Squiz) yn caniatáu i'r Brifysgol orfodi unrhyw gynnwys a gaiff ei gynhyrchu ar ein Gwefan neu safleoedd y Fewnrwyd i gael ei gyhoeddi'n ddwyieithog. Mae'r Brifysgol wedi prynu teclyn sy'n caniatáu integreiddio rhwng Squiz a Memsource, ein meddalwedd rheoli cyfieithu, sy'n:<br><br>• Caniatáu i waith cyfieithu gael ei gyflwyno a'i dderbyn yn Squiz – gan arbed amser ar fformatio a chopïo cynnwys i Memsource;<br>• Galluogi'r tîm cyfieithu i dracio cyfaint y gwaith a gyflwynir o'r wefan a'r fewnrwyd, er mwyn eu galluogi i flaenoriaethu gwaith |
| **Dogfennau** | Crëwyd arweiniad er mwyn helpu staff i ganfod y dogfennau y mae'n rhaid iddynt fod ar gael yn ddwyieithog. Rydym wedi adnabod y ddogfennaeth safonol y mae'r Brifysgol yn ei chreu ac rydym wedi rhoi prosesau ar waith er mwyn gwneud yn siŵr eu bod ar gael yn ddwyieithog gan ddibynnu ar ddewisiadau unigol neu pryd bynnag y bo'r angen. |
| **Tiwtoriaid Personol** | Mae'r Brifysgol yn gofyn i fyfyrwyr a ydynt am gael tiwtor personol Cymraeg wrth iddynt ymrestru. Rhennir y dewisiadau hyn â'r Ysgolion, a byddant yn neilltuo tiwtor yn ôl yr angen. Mae sawl Ysgol sydd â lefel uchel o fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg yn aseinio tiwtor Cymraeg iddynt yn ddiofyn. |
| **Arwyddion, hysbysiadau a hysbysebion** | Mae arweiniad i staff ar gael er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y maes hwn. Mae ein hadran Gyfathrebu yn greiddiol o ran gwneud yn siŵr bod ein cyfathrebu corfforaethol a'n hysbysiadau ar gyfer digwyddiadau'n ddwyieithog. |
| **Cyfryngau Cymdeithasol** | Rydym yn darparu gwasanaeth dwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cyfrifon:<br><br>• Sydd wedi'u rheoli'n ganolog gan ein tîm Cyfathrebu (cyfrifon Corfforaethol) neu;<br>• Sydd â diben penodol i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a fyddai'n dod o fewn cwmpas gweithgareddau Cyflenwi Gwasanaethau sydd wedi'u rhestru yn y safonau ac |

| | |
|---|---|
| | sy'n cynrychioli prif waith y Brifysgol ar y cyfryngau cymdeithasol. |
| **Safonau Llunio Polisi** | |
| **Llunio Polisi** | Wrth greu Polisïau newydd, cynnal ymgynghoriadau neu ymchwil yn ymwneud â'r Polisïau hynny, gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chyllid grant, neu ddatblygu neu ddiwygio cwrs, mae gofyn i'r Brifysgol ystyried yr effaith ar y Gymraeg. Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys Asesiad Effaith Ieithyddol er mwyn gwneud yn siŵr bod materion y Gymraeg yn cael eu hystyried. Cynhelir yr asesiad hwn yn annibynnol ar y nodweddion a warchodir yn hytrach nag fel asesiad cyfannol o'r holl faterion.<br><br>I gydnabod pwysigrwydd y Safonau yn y maes hwn, mae'r Brifysgol wedi cynhyrchu canllaw i'r holl staff. Gyda chymorth rhwydwaith Hyrwyddwyr y Gymraeg, rydym wedi dechrau cyfeirio'r canllaw hwn at swyddogion a thimau sy'n debygol o gyflawni gweithgareddau a fydd yn golygu bod yn rhaid cynnal Asesiad. |
| **Safonau Gweithredu** | |
| Gellir darllen datganiad o gydymffurfiaeth ffurfiol y Brifysgol gyda'r Safonau Gweithredu yn nogfen Polisi Safonau Gweithredol y Gymraeg. | |
| **Recriwtio** | Asesir pob swydd newydd a/neu wag mewn perthynas â lefel yr hyfedredd yn y Gymraeg sydd ei hangen, a'i dosbarthu yn ôl un o'r isod:<br>• hyfedredd/rhuglder yn hanfodol<br>• hyfedredd/rhuglder yn ddymunol<br>• gofyniad i ddod yn hyfedr/rhugl<br>• dim angen hyfedredd/rhuglder.<br><br>Cyhoeddir hysbysebion swyddi yn Gymraeg a Saesneg. Mae ffurflenni cais a deunyddiau recriwtio ategol ar gael yn Gymraeg ac mae unrhyw ffurflen gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ymateb Cymraeg.<br><br>Ar y ffurflen gais, rydym yn gofyn i ymgeiswyr a ydynt am gael y cyfweliad yn Gymraeg. |
| **Hyfforddiant Staff am y Gymraeg** | Mae'r modiwl gorfodol am y Gymraeg yn cynnwys adran labordy iaith sy'n rhoi lefel sylfaenol o Gymraeg i staff.<br><br>Mae Ysgol y Gymraeg yn darparu ystod eang o gyrsiau Cymraeg sydd ar gael i staff sydd ar wahanol lefelau o ran gallu, er mwyn dysgu a gwella eu Cymraeg, yn ystod neu ar ôl oriau gwaith. Yn aml, cynhelir y cyrsiau mewn llefydd amrywiol o gwmpas Caerdydd, er mwyn galluogi mynediad i ystod eang o staff a'r cyhoedd. Mae cyrsiau unwaith yr wythnos, dwywaith yr wythnos, dyddiol neu fel bloc ar gael, ynghyd â chyrsiau sy'n caniatáu i chi astudio hanner y cwrs ar-lein a'i hanner yn y dosbarth.<br><br>Hefyd, mae'r Brifysgol wedi neilltuo cyllideb ganolog o £20,000 y gall unrhyw aelod o staff ei defnyddio ar sail y cyntaf i'r felin. Ar ôl i'r gyllideb honno gael ei gwario, gofynnir i adrannau ac ysgolion gyllido gofynion gan eu staff am hyfforddiant yn y Gymraeg eu hunain. Gostyngwyd cost y cyrsiau i staff yn 2019, ac felly rydym yn disgwyl y bydd y gyllideb yn gallu cynnwys mwy o staff nag yn y blynyddoedd blaenorol. |

| | |
|---|---|
| **Dogfennau** | Fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg, mae dogfennau ar gael yn Gymraeg i staff ar gais. |
| **Cwynion a Disgyblu** | Gall pob aelod o staff wneud cais i ddefnyddio'r Gymraeg mewn materion yn ymwneud ag unrhyw gŵyn a godir, neu a godir yn eu herbyn. Os yw aelod o staff yn destun achos disgyblu, caiff yr unigolyn hwnnw ymateb yn Gymraeg mewn unrhyw gyfrwng. |

## Cwynion

Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniodd Prifysgol Caerdydd ddwy gŵyn mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, ac ystyriwyd y ddwy fel cwynion am Gyflenwi Gwasanaethau. Barnwyd nad oedd sail i'r un o'r ddwy gŵyn.

## Sgiliau'r Gweithlu

Dyma fanylion am staff sy'n medru'r Gymraeg yn y Brifysgol:

| Sgiliau Cymraeg - Adran | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm y Staff** | **Rhugl** | **Rhywfaint o Allu** | **Dim Gallu** | **% Rhugl / Rhywfaint o allu *** |
| **GWASANAETHAU ACADEMAIDD A CHEFNOGI MYFYRWYR** | **867** | 29 | 223 | 390 | 39.25% |
| **PENSARNÏAETH** | **89** | 1 | 12 | 49 | 20.97% |
| **Y CELFYDDYDAU, Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL** | **74** | 6 | 24 | 29 | 50.85% |
| **Y GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A GWYDDORAU BYWYD** | **95** | 1 | 18 | 31 | 38.00% |
| **Y BIOWYDDORAU** | **347** | 7 | 42 | 158 | 23.67% |
| **YSGOL BUSNES CAERDYDD** | **315** | 6 | 35 | 106 | 27.89% |
| **Y GYFRAITH A GWLEIDYDDIAETH CAERDYDD** | **209** | 10 | 43 | 68 | 43.80% |
| **CEMEG** | **159** | 1 | 25 | 100 | 20.63% |
| **MARCHNATA A CHYFATHREBU** | **109** | 10 | 42 | 53 | 49.52% |
| **CYFRIFIADUREG** | **115** | 2 | 17 | 90 | 17.43% |
| **DEINTYDDIAETH** | **125** | 3 | 14 | 79 | 17.71% |
| **DATBLYGU A CHYSYLLTIADAU CYNFYFYRWYR** | **26** | 1 | 16 | 9 | 65.38% |
| **GWYDDORAU'R DDAEAR** | **84** | 0 | 19 | 55 | 25.68% |
| **PEIRIANNEG** | **320** | 4 | 50 | 164 | 24.77% |
| **SAESNEG, CYFATHREBU AC ATHRONIAETH** | **95** | 5 | 29 | 54 | 38.64% |
| **YSTADAU A CHYFLEUSTERAU'R CAMPWS** | **451** | 2 | 42 | 121 | 26.67% |
| **CYLLID** | **76** | 0 | 25 | 50 | 33.33% |
| **DAEARYDDIAETH A CHYNLLUNIO** | **83** | 0 | 20 | 51 | 28.17% |
| **GWYDDORAU GOFAL IECHYD** | **279** | 15 | 48 | 123 | 33.87% |
| **HANES, ARCHAEOLEG A CHREFYDD** | **92** | 2 | 13 | 31 | 32.61% |
| **ADNODDAU DYNOL** | **76** | 2 | 23 | 40 | 38.46% |
| **ARCHWILIO MEWNOL** | **3** | 0 | 2 | 0 | 100.00% |
| **NEWYDDIADURAETH, CYFRYNGAU AC ASTUDIAETHAU DIWYLLIANNOL** | **90** | 2 | 12 | 41 | 25.45% |
| **MATHEMATEG** | **61** | 3 | 13 | 43 | 27.12% |
| **MEDDYGAETH** | **1190** | 20 | 189 | 443 | 32.06% |
| **CERDDORIAETH** | **30** | 2 | 6 | 13 | 38.10% |
| **OPTOMETREG A GWYDDORAU'R GOLWG** | **114** | 1 | 14 | 28 | 34.88% |
| **FFERYLLIAETH A GWYDDORAU FFERYLLOL** | **110** | 4 | 18 | 41 | 34.92% |
| **GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG** | **31** | 1 | 12 | 18 | 41.94% |
| **FFISEG A SERYDDIAETH** | **153** | 2 | 19 | 69 | 23.33% |
| **SEICOLEG** | **193** | 2 | 23 | 73 | 25.51% |
| **GWASANAETHAU YMCHWIL AC ARLOESEDD** | **96** | 3 | 42 | 49 | 47.87% |
| **YR YSGOL IEITHOEDD MODERN** | **129** | 2 | 28 | 47 | 38.96% |
| **GWYDDORAU CYMDEITHASOL** | **241** | 8 | 53 | 125 | 32.80% |
| **CYNLLUNIO STRATEGOL A LLYWODRAETHU** | **44** | 7 | 15 | 21 | 51.16% |
| **TECHNOLEG GWYBODAETH Y BRIFYSGOL** | **317** | 8 | 72 | 165 | 32.65% |
| **SWYDDFA'R IS-GANGHELLOR** | **25** | 2 | 4 | 10 | 37.50% |
| **CYMRAEG** | **81** | 53 | 1 | 0 | 100.00% |
| **Cyfanswm** | **6994** | ***227*** | ***1303*** | ***3037*** | 33.50% |

* Canran y rhai sy'n Rhugl/Rhywfaint o Allu yn seiliedig ar eu hunan-ddatgeliad o ran gallu yn y Gymraeg ar ein system Adnoddau Dynol. Gweler y Tabl isod ar gyfer cyfraddau datgelu ymhlith staff.

| Sgiliau Cymraeg - Adran | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y Staff | Dim Ymateb | Ymateb | Cyfradd Ymateb |
| GWASANAETHAU ACADEMAIDD A CHEFNOGI MYFYRWYR | 867 | 227 | 640 | 73.82% |
| PENSARNÏAETH | 89 | 27 | 62 | 69.66% |
| Y CELFYDDYDAU, Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL | 74 | 15 | 59 | 79.73% |
| Y GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A GWYDDORAU BYWYD | 95 | 45 | 50 | 52.63% |
| Y BIOWYDDORAU | 347 | 140 | 207 | 59.65% |
| YSGOL BUSNES CAERDYDD | 315 | 168 | 147 | 46.67% |
| Y GYFRAITH A GWLEIDYDDIAETH CAERDYDD | 209 | 88 | 121 | 57.89% |
| CEMEG | 159 | 33 | 126 | 79.25% |
| MARCHNATA A CHYFATHREBU | 109 | 4 | 105 | 96.33% |
| CYFRIFIADUREG | 115 | 6 | 109 | 94.78% |
| DEINTYDDIAETH | 125 | 29 | 96 | 76.80% |
| DATBLYGU A CHYSYLLTIADAU CYNFYFYRWYR | 26 | 0 | 26 | 100.00% |
| GWYDDORAU'R DDAEAR | 84 | 10 | 74 | 88.10% |
| PEIRIANNEG | 320 | 102 | 218 | 68.13% |
| SAESNEG, CYFATHREBU AC ATHRONIAETH | 95 | 7 | 88 | 92.63% |
| YSTADAU A CHYFLEUSTERAU'R CAMPWS | 451 | 286 | 165 | 36.59% |
| CYLLID | 76 | 1 | 75 | 98.68% |
| DAEARYDDIAETH A CHYNLLUNIO | 83 | 12 | 71 | 85.54% |
| GWYDDORAU GOFAL IECHYD | 279 | 93 | 186 | 66.67% |
| HANES, ARCHAEOLEG A CHREFYDD | 92 | 46 | 46 | 50.00% |
| ADNODDAU DYNOL | 76 | 11 | 65 | 85.53% |
| ARCHWILIO MEWNOL | 3 | 1 | 2 | 66.67% |
| NEWYDDIADURAETH, CYFRYNGAU AC ASTUDIAETHAU DIWYLLIANNOL | 90 | 35 | 55 | 61.11% |
| MATHEMATEG | 61 | 2 | 59 | 96.72% |
| MEDDYGAETH | 1190 | 539 | 651 | 54.71% |
| CERDDORIAETH | 30 | 9 | 21 | 70.00% |
| OPTOMETREG A GWYDDORAU'R GOLWG | 114 | 71 | 43 | 37.72% |
| FFERYLLIAETH A GWYDDORAU FFERYLLOL | 110 | 47 | 63 | 57.27% |
| GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG | 31 | 0 | 31 | 100.00% |
| FFISEG A SERYDDIAETH | 153 | 63 | 90 | 58.82% |
| SEICOLEG | 193 | 95 | 98 | 50.78% |
| GWASANAETHAU YMCHWIL AC ARLOESEDD | 96 | 2 | 94 | 97.92% |
| YR YSGOL IEITHOEDD MODERN | 129 | 52 | 77 | 59.69% |
| GWYDDORAU CYMDEITHASOL | 241 | 55 | 186 | 77.18% |
| CYNLLUNIO STRATEGOL A LLYWODRAETHU | 44 | 1 | 43 | 97.73% |
| TECHNOLEG GWYBODAETH Y BRIFYSGOL | 317 | 72 | 245 | 77.29% |
| SWYDDFA'R IS-GANGHELLOR | 25 | 9 | 16 | 64.00% |
| CYMRAEG | 81 | 27 | 54 | 66.67% |
| Cyfanswm | 6994 | *2402* | *4520* | *65.30%* |

## Cyrsiau Hyfforddiant

Gofynnir i'r Brifysgol gynnig hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd canlynol, os cynigir y fath hyfforddiant yn Saesneg:

- recriwtio a chyfweld;
- rheoli perfformiad;
- gweithdrefnau cwyno a disgyblu
- ymsefydlu;
- ymdrin â'r cyhoedd;
- iechyd a diogelwch.

Pan fydd aelod o staff yn archebu lle ar y cwrs, anfonir e-bost atynt i roi gwybod am eu hawl i gael y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut mae gwneud cais am hyn. Ar hyn o bryd, nid yw'r Brifysgol yn cynnig hyfforddiant am weithdrefnau cwyno a disgyblu (yn Saesneg nac yn Gymraeg).

Gofynnodd (a chafodd) y nifer canlynol o staff hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

| Enw'r cwrs | Ceisiadau/darparu cyfieithu ar y pryd | Canran y staff (%) |
|---|---|---|
| Hanfodion Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd | 0 | 0 |
| Rheoli perfformiad | 0 | 0 |
| Perfformiad o ran Monitro'r Gymraeg | 0 | 0 |
| Cynefino - Gwasanaethau Proffesiynol a staff Academaidd ac Ymchwil | 1 | 4.37 |
| Sgiliau ar gyfer recriwtio a dethol | 0 | 0 |
| Sgiliau Cymraeg ar gyfer recriwtio a dethol | 0 | 0 |
| Asesiad o Sgrîn Arddangos | 0 | 0 |
| Codi a Chario | 0 | 0 |
| Profion dyfeisiau cludadwy | 0 | 0 |
| Gofal Cwsmeriaid | 0 | 0 |
| Rhagoriaeth Rheoli Gwasanaeth Cwsmeriaid | 0 | 0 |

## Swyddi a Hysbysebwyd

Gofynnir i'r Brifysgol adrodd am nifer y swyddi a hysbysebwyd lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Cafodd y nifer canlynol o swyddi eu hysbysebu gyda'r Gymraeg yn hanfodol yn ystod y cyfnod adrodd:

| Nifer y swyddi a hysbysebwyd | Nifer y rhai a recriwtiwyd i'r swyddi hynny | Nifer y siaradwyr Cymraeg a recriwtiwyd | % y swyddi hynny a gafodd siaradwr Cymraeg |
|---|---|---|---|
| 67 | 46 | 32 | 70% |

Mewn perthynas â'r gwahaniaeth rhwng 'Nifer y swyddi a hysbysebwyd' a 'Nifer y rhai a recriwtiwyd i'r swyddi hynny', dylid nodi'r canlynol:

- Bydd 'Nifer y swyddi a hysbysebwyd' yn cynnwys rhai swyddi yr oedd y Brifysgol wedi methu â recriwtio iddynt yn wreiddiol, cyn mynd ymlaen i ail-hysbysebu a recriwtio'n llwyddiannus yn ystod yr un flwyddyn galendr

Mewn perthynas â'r gwahaniaeth rhwng 'Nifer y rhai a recriwtiwyd i'r swyddi hynny' a 'Nifer y siaradwyr Cymraeg a recriwtiwyd', dylid nodi'r canlynol. Mae hyn yn egluro'r 30% o swyddi na lenwyd mohonynt gan siaradwyr Cymraeg, er bod y Gymraeg yn hanfodol:

- bydd y data hwn yn cynrychioli sefyllfaoedd lle mae'r Brifysgol wedi hysbysebu sawl swydd debyg iawn, a dim ond nifer penodol yr oedd gofyn fod ganddynt sgiliau Cymraeg.
- Mae'r data ar gyfer 'Nifer y siaradwyr Cymraeg a recriwtiwyd' yn dod o'n system Adnoddau Dynol, sy'n ddibynnol ar fod siaradwyr Cymraeg yn datgelu eu gallu i siarad Cymraeg. Mae'n bosib bod rhai ymgeiswyr llwyddiannus wedi dangos gallu digonol o ran siarad Cymraeg i gael eu cyflogi, ond nad ydynt wedi datgelu eu gallu ar y system Adnoddau Dynol o reidrwydd.
- Bydd rhai swyddi wedi cael eu hysbysebu gyda gofyniad i ddod yn hyfedr/rhugl, ond mae'n bosib nad yw'r ymgeiswyr llwyddiannus yn yr achosion hyn yn teimlo bod ganddynt ddigon o allu i ddatgan eu bod yn siaradwr Cymraeg.